



www.conwy.gov.uk

STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG

2014-2018

Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

	<u>Cynnwys</u>	<u>Rhif Tudalen</u>
1	Cyflwyniad	1
2	Egwyddorion y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig	1-2
3	Y Cynllun Corfforaethol 2012 - 2017	2-9
4	Tueddiadau Economaidd	9-12
5	Yr Her Ariannol	13-14
6	Cyllideb Refeniw 2014/15	14-16
7	Ymateb i'r Diffyg Adnoddau	16-20
8	Cyllid Llywodraeth Cymru	20-22
9	Setliad Terfynol 2014/15	23-24
10	Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig (MTFF) 2014/2015 i 2017/2018	25-27
11	Rhaglen Gyfalaf	28-30
12	Balansau a Chronfeydd Wrth Gefn	30-31
13	Casgliad	31
	<u>Atodiadau</u>	
	Atodiad 1: Cynhyrchu Cyllideb Refeniw 2014/15	32

1. CYFLWYNIAD

Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) hon yn nodi dull strategol y Cyngor i reoli ei gyllid ac yn amlinellu rhai o'r materion ariannol a fydd yn wynebu'r Cyngor dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r gwaith o gyflawni'r strategaeth yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael trwy setliadau Llywodraeth Cymru (LIC) ac ar lwyddiant y Cyngor wrth alinio adnoddau i'w nodau a blaenoriaethau.

Mae'r SATC yn nodi siâp cyffredinol cyllideb y Cyngor ac mae'n cynrychioli model cadarn o ofynion ariannol y Cyngor ar gyfer y lefelau darparu gwasanaethau a gynlluniwyd yn y tymor canolig. Mae hyn yn darparu fframwaith er mwyn galluogi Aelodau a swyddogion i ddatblygu dyraniadau cyllideb blynyddol manwl.

Bydd y SATC yn ddull allweddol ar gyfer rheoli cyllid yn rhagweithiol. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel sail i'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol i sicrhau bod anghenion adnoddau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod yn ddigonol ac yn cyd-fynd â'r gwasanaethau cywir, ond hefyd yn caniatáu ar gyfer nodi gofynion ariannu'r dyfodol yn ddigon pell ymlaen llaw er mwyn gallu cynllunio i gymryd camau priodol i ddelio â'r diffygion ariannu a ragwelir.

Bob blwyddyn, mae gofyniad tymor byr i baratoi cyllideb flynyddol a gosod Treth y Cyngor. Bydd y SATC yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn fel rhan o'r cylch cynllunio cyllideb flynyddol. Bydd yr Aelodau'n cael gwybod am y datblygiadau i'r SATC drwy'r Cabinet a'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu wrth i wasanaethau ystyried cost ac arbedion a/neu ddewisiadau effeithlonrwydd fel rhan o'r cylch cynllunio cyllideb blynyddol.

2. EGWYDDORION Y STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Mae'r SATC ar gyfer 2014/15 i 2017/18 yn seiliedig ar yr egwyddorion craidd canlynol:

1. Bydd y SATC yn cael ei osod o fewn cyd-destun y Cynllun Corfforaethol 2012 -17, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 25 Medi 2012 (cofnod 349).
2. Bydd y SATC a'r broses gyllidebol yn sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cynnwys y blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol.
3. Mae'r SATC yn cydnabod y bydd y lefel gyffredinol o gyllid gan LIC yn parhau i ostwng yn y dyfodol rhagweladwy ac efallai na fydd y Cyngor yn gallu darparu adnoddau i ddarparu gwasanaethau ar y lefelau presennol. Er mwyn cefnogi'r broses o ddyrannu adnoddau a dealltwriaeth, cynhaliodd Conwy ymarfer Blaenoriaethu Gwasanaeth, gan gynnwys Aelodau, ym mis Tachwedd 2010. O ganlyniad i'r ymarfer penderfynwyd bod 95% o'n cyllideb wedi'i chyfeirio at feysydd gwasanaeth blaenoriaeth y Cyngor ar y pryd, fel y nodir yn Nhabl 1 isod:

TABL 1

Chwartel	Sgôr	Nifer y gweithgareddau sydd wedi'u diffinio	Cyllideb Net (£'000) 2010/2011	% Cyfanswm Cyllideb Net	Nifer y gweithgareddau sydd wedi'u diffinio		Cyllideb Net (£'000)	
					Gorfodol - Rhagnodedig / Dewisol	Dewisol	Gorfodol - Rhagnodedig / Dewisol	Dewisol
Chwartel 1af	810-1030	101	130,580	68%	66	35	124,090	6,490
2il Chwartel	700-800	101	34,572	18%	61	40	25,479	9,093
3ydd Chwartel	540-690	100	17,496	9%	54	46	11,361	6,135
4ydd Chwartel	0-530	99	8,964	5%	35	64	5,311	3,653
Cyfanswm		401	191,612		216	185	166,241	25,371

4. Mae cyllidebau olynol wedi darparu adnoddau ychwanegol i gyllidebau yn seiliedig ar achosion busnes cadarn sy'n adlewyrchu anghenion, gyda gostyngiadau yn y gyllideb yn cael eu cyflawni drwy raglen effeithlonrwydd yr Awdurdod. Y casgliad cyffredinol yw bod y mwyafrif helaeth o'n cyllideb yn dal i gefnogi'r gweithgareddau hynny sy'n cynrychioli blaenoriaethau Conwy.
5. Mae'r SATC yn nodi lefel yr arbedion y bydd eu hangen i sicrhau bod cyllideb y Cyngor yn gytbwys, tra'n ceisio lleihau'r effaith ar ein gwasanaethau blaenoriaeth.
6. Mae'r SATC yn cydnabod y bydd angen i'r Cyngor gynnal lefel briodol a doeth o Falansau ac Arian Wrth Gefn i dalu am wariant cynlluniedig ac annisgwyl. Bydd y Cyngor yn ceisio cynnal cyllideb refeniw dros gyfnod y SATC sy'n cael ei ariannu gan Grant Cefnogi Refeniw, Grant Trethi Annomestig a Threth y Cyngor. Mae cronfeydd a balansau wedi'u defnyddio i gefnogi gwariant refeniw yn 2014/2015, ac yn y dyfodol i raddau llai, ond nid yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor hirach.

3. Y CYNLLUN CORFFORAETHOL 2012-17

Y Cynllun Corfforaethol yw'r cynllun strategol ar gyfer y Cyngor. Mae cynllunio ar gyfer y dyfodol yn heriol, yn enwedig o ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau rydym yn eu darparu, a'r gofynion sy'n cystadlu am adnoddau sy'n fwyfwy prin. Mae ein holl wasanaethau wedi ymrwymo i wneud gwelliannau a dod o hyd i arbedion, fel bod y Cyngor yn parhau i fod yn effeithlon, yn effeithiol a diwallu anghenion y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu o ddydd i ddydd. Pwrpas y Cynllun Corfforaethol yw canolbwyntio ar y blaenoriaethau hynny lle mae angen rhoi sylw penodol. Bydd yn ein helpu i dargedu ein hadnoddau cyfalaf prin a'n hadnoddau refeniw yn well. Mae hefyd yn ein galluogi i wneud ceisiadau am gymorth grant allanol gan LIC, Ewrop, a chyrff eraill sy'n rhoi grantiau. Mae'r Cynllun hefyd yn darparu fframwaith y gallwn ni asesu ein cynnydd yn eu herbyn i gefnogi anghenion y dinasyddion sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi sut y byddwn yn barnu ein perfformiad ac yn cefnogi cyfraniad y Cyngor i 'Un Conwy 2012 - 2025' - cynllun integredig sengl Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy. Dyma hefyd y modd y mae'r Cyngor yn cytuno ar ei amcanion gwella fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac yn ffocws allweddol ar gyfer ein rheolyddion.

Mae 'Un Conwy' yn manylu ar yr 8 Canlyniad i Ddinasyddion sy'n ffurfio fframwaith ar gyfer ein cynlluniau tymor hir. Wrth wraidd y Canlyniadau mae'r ffocws ar **bobl**, a gweithio i'w cefnogi i gael bywydau gwell. Mae'r 8 Canlyniad i Ddinasyddion yn manylu ar y cyfleoedd yr ydym eisiau eu rhoi i bobl Conwy.

Ffocws Conwy ar Bobl - Y Canlyniadau i Ddinasyddion:

Mae 'Canlyniad' yn ddatganiad o'r manteision sydd i'w ceisio ar gyfer y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu. Yng Nghonwy mae 8 canlyniad i ddinasyddion yr ydym yn ymdrechu i'w cyflawni:

- 1) Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus**
- 2) Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel**
- 3) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel a phriodol**
- 4) Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol**
- 5) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir a chanddi economi ffyniannus**
- 6) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy**
- 7) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu**
- 8) Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais**

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi gweledigaeth a gwerthoedd y Cyngor ac yn manylu ar gyfraniad penodol y Cyngor i helpu i gyflawni'r 8 Canlyniad i Ddinasyddion.

O dan bob canlyniad i ddinasyddion mae set o gamau gweithredu a mesurau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio i gynnal hunanasesiad o lefel y gwelliant a wnaed.

Yn sail i'r Cynllun Corfforaethol mae'r gwaith y bydd adrannau yn ei wneud o ddydd i ddydd a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn cynlluniau gwasanaeth adrannol. Mae pob Cynllun Gwasanaeth yn gysylltiedig â'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r cynlluniau hefyd yn cynnwys y mesurau perfformiad a fydd yn rheoli darpariaeth gweithgareddau gwella ehangach.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd drwy gydol ei hoes i adlewyrchu'r newidiadau yn y cyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Yn benodol, mae'n cael ei hadolygu ochr yn ochr ag 'Un Conwy 2012 - 2025' er mwyn sicrhau bod cysondeb yn cael ei gynnal.

Datblygwyd y blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol drwy siarad gyda, a gwrando ar y Gymuned. Bob blwyddyn byddwn yn ddadansoddi gwybodaeth ddemograffig er mwyn canfod beth yw'r materion allweddol sydd angen eu gwella yn y Fwrdeistref Sirol. Rydym yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ein gwefan fel adroddiad o'r enw 'Cymhellion Allweddol Bwrdeistref Sirol Conwy 2012 - 2017'. Bob blwyddyn rydym yn gofyn i'r gymuned ddweud eu dweud ynglŷn ag a yw'r Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir, ac a oes ganddynt unrhyw awgrymiadau eraill. Rydym wedi gofyn am farn trwy holiadur ar-lein a holiadur ar bapur, ym Mwletin y Cyngor, a thafleini a ddsberthir i wahanol leoliadau. Rydym hefyd wedi gwahodd dinasyddion i fynychu gweithdai i drafod y blaenoriaethau ac wedi cynnal gweithdai penodol i gael barn Cynghorwyr Tref a Chymuned, y Cyngor Ieuenctid, busnesau lleol a'u cynrychiolwyr rhwydwaith, sefydliadau'r sector gwirfoddol, partneriaid yn y sector cyhoeddus, Aelodau Etholedig, Uwch Reolwyr, a Staff y Cyngor. Rydym hefyd wedi edrych ar yr adborth a gafwyd eisoes o weithgareddau ymgysylltu eraill fel gwaith ymgysylltu Un Conwy ac ymglymiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol gyda grwpiau lleiafrifol a grwpiau a ddiogelir.

Mae'r penderfyniad terfynol ar yr hyn yr ydym wedi'i gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol a pha newidiadau y dylid eu gwneud ar ôl yr adolygiad blynyddol, wedi ei wneud gan y bobl y mae'r dinasyddion wedi eu hethol yn ddemocrataidd i gynrychioli eu barn, yr Aelodau Etholedig (Cynghorwyr Sir). Mae'r Aelodau Etholedig yn gweithio'n agos gyda'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn eu hardaloedd i ddeall anghenion dinasyddion. Maent yn blaenoriaethu'r materion allweddol sy'n effeithio nid yn unig eu cymuned eu hunain, ond hefyd y Fwrdeistref Sirol gyfan mewn modd gwybodus. Maent wedi gwneud hyn ar sail lefel effaith y blaenoriaethau wrth gyfrannu at y Canlyniadau a dichonoldeb eu cyflawni yn seiliedig ar fforddiadwyedd, cynaladwyedd ac a yw'n gyraeddadwy. Cynhaliwyd asesiad o effaith ar gydraddoldeb hefyd.

Ein Gweledigaeth

Er mwyn datblygu cynllun tymor hir, mae angen i bob sefydliad osod dyhead o lle mae'r sefydliad yn ceisio bod yn y dyfodol. Mae hyn yn galluogi pawb i fod yn unedig o ran eu cyfeiriad cyffredin a'u diben. Dyhead y Cyngor ar gyfer y Fwrdeistref Sirol yw:

Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfle

Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn cynrychioli credoau ac ymddygiad disgwylidig pawb sy'n gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Ein gwerthoedd, sy'n ceisio cefnogi gwasanaethau o safon, yw:

- Canolbwyntio ar y cwsmer
- Bod yn barchus a theg
- Bod yn ddibynadwy ac yn atebol
- Bod yn arloesol
- Cefnogi a datblygu ein tîm

Agwedd Tîm

Er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, mae angen i ni gael timau rhagorol i'w cyflawni. Rydym yn cydnabod mai ein staff yw ein hadnodd pwysicaf sydd wrth wraidd y gwasanaethau a ddarparwn. Rydym wedi ymrwmo i fuddsoddi mewn staff a'u datblygiad fel bod gennym weithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac wedi'u cefnogi, yn darparu gwasanaethau proffesiynol ac sy'n hapus a brwdfrydig yn eu gwaith. Rydym hefyd yn cynnal hunan asesiad blynyddol o'r enw 'Gwella Conwy' lle mae staff ac Aelodau yn cael eu gwahodd i gymryd rhan wrth adolygu a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau ar gyfer y Cyngor. Mae hyn wedi arwain at weithredu nifer o newidiadau ac mae wedi bod yn gyfrwng rhagorol ar gyfer datblygiad personol, ymwybyddiaeth wleidyddol a chefnogi diwylliant 'Tîm Conwy' y mae'r Cyngor mor falch ohono.

Ein Blaenoriaethau Strategol 2012-17

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cwmpasu cyfnod o 5 mlynedd gydag adolygiad blynyddol. O dan bob canlyniad mae cyfres o gamau blaenoriaeth a mesurau yr ydym

yn eu monitro i asesu a ydym wedi gwneud gwahaniaeth. Mae'r camau blaenoriaeth wedi'u hamlinellu isod, ond gellir cael rhagor o wybodaeth yn www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol a gellir gweld hunanasesiad cynnydd y Cyngor i gyflawni'r cynllun corfforaethol yn www.conwy.gov.uk/adroddiadblynyddol.

Canlyniad 1) Mae pobl yng Nghonwy'n addysgedig ac yn fedrus

Camau Blaenoriaeth

- A1.1** Cefnogi datblygiad menter gymdeithasol i hwyluso cyfleoedd gwaith.
- A1.2** Dod â phobl ddiameddiffyn yn nes at fod mewn gwaith trwy ddarparu sgiliau ymarferol a chyfleoedd hyfforddiant iddynt.
- A1.3** Cynyddu hyd, safon a nifer y lleoliadau profiad gwaith sydd ar gael gyda'r Cyngor i helpu pobl leol i feithrin sgiliau a phrofiad perthnasol er mwyn gwella eu cyfle i gael gwaith.
- A1.4** Cynyddu nifer y prentisiaethau modern sydd ar gael i helpu pobl leol i feithrin rhagor o sgiliau a phrofiad er mwyn gwella eu cyfle i gael gwaith.
- A1.5.** Datblygu isadeiledd TG mewn ysgolion i roi cymorth i bobl ifanc gael mynediad diddor at ddysg dechnolegol gyfoethog er mwyn datblygu sgiliau TGCh pobl ifanc (addysg wedi'i alluogi'n ddigidol).
- A1.6.** Gweithio ar y cyd â'n partneriaid i weithredu rhaglen ranbarthol o wella ysgolion er mwyn codi safonau a sicrhau cyrhaeddiad mewn sgiliau sylfaenol a Phynciau Craidd TGAU ym mhob ysgol.
- A1.7.** Pan fo'n ddichonadwy gwneud hynny'n ariannol, rhoi ein Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ar waith er mwyn sicrhau fod adeiladau ein hysgolion, adnoddau athrawon a phrofiadau dysgu disgyblion yn addas i'r pwrpas.
- A1.8** Cefnogi datblygu cyrsiau gwyddoniaeth a thechnoleg addas yn ein hysgolion i helpu pobl ifanc i feithrin sgiliau a chymwysterau i wella eu cyfle i gael gwaith.

Canlyniad 2) Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel, ac yn teimlo'n ddiogel

Camau Blaenoriaeth

- A2.1** Gwella yn ein swyddogaeth o ran gorfodaeth ac addysg er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys tipio anghyfreithlon, gollwng sbwriel, graffiti a baw cŵn.
- A2.2** Parhau i weithio gyda'n partneriaid trwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i hybu a chynnal y ffaith fod Conwy'n Sir ddiogel.
- A2.3** Parhau i hyrwyddo diogelu ar bob lefel drwy Fwrdd Lleol Diogelu Plant Conwy/Sir Ddinbych a Phwyllgor Diogelu Oedolion Diamddiffyn Conwy.
- A2.4** Parhau i weithio gyda'n partneriaid i wella cefnogaeth i'r teulu cyfan wrth ddelio â materion trais domestig, iechyd meddwl a chyffuriau ac alcohol.

Canlyniad 3) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn cartrefi diogel ac addas

Camau Blaenoriaeth

- A3.1** Gweithio mewn partneriaeth gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid eraill i atal digartrefedd lle bo hynny'n bosibl, ac i gefnogi pobl sy'n mynd yn ddigartref.
- A3.2** Trwy fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, mynd ati i roi'r Cynllun Tai Fforddiadwy¹ ar waith er mwyn darparu tai fforddiadwy i bobl leol.
- A3.3** Parhau i gynig Cynllun Morgais yr Awdurdod Lleol (LAMS) i helpu unigolion lleol sy'n prynu am y tro cyntaf i brynu eu cartref eu hunain.
- A3.4** Adolygu, a lle bod hynny'n briodol, cyflwyno'r drefn o drwyddedu HMOs trwy'r Sir er mwyn gwella ansawdd y llety sydd ar gael.
- A3.5** Parhau i weithredu Strategaeth Cartrefi Gweigion Conwy er mwyn gwella'r amgylchedd ac er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai.
- A3.6** Parhau i weithio gyda phartneriaethau llifogydd i wella diogelwch a gwydnwch cymunedol a'r gallu i yswirio, a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion lifogydd fel eu bod yn barod i ddiogelu eu heiddo.
- A3.7** Datblygu bidiau er mwyn cefnogi pobl i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.

Canlyniad 4) Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol

Camau Blaenoriaeth

- A4.1** Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i adolygu'r dulliau o ddarparu Gofal Cymdeithasol a datblygu ystod o ddewisiadau cefnogi ar gyfer y rhai sydd angen cymorth i'w cadw'n annibynnol am gyhyd â phosibl.
- A4.2** Cydnabod pwysigrwydd gofal anffurfiol, a gwella o ran adnabod pwy sy'n darparu'r gofal hwnnw a pha gymorth y mae arnynt ei angen i gyflawni'r swyddogaeth hollbwysig hon.
- A4.3** Rhoi cynllun gweithredu 'Conwy Egnïol am Oes' ar waith i annog cyfleoedd i fyw bywydau iachach.
- A4.4** Datblygu cynllun cludiant cymunedol lleol i helpu pobl i gael mynediad i wasanaethau hanfodol.

¹ Tai fforddiadwy yw tai a ddarperir ar gyfer pobl ar incwm isel nad ydynt yn gallu diwallu eu hanghenion tai yn y farchnad dai gyffredinol

Canlyniad 5) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir a chanddi economi ffyniannus

Camau Blaenoriaeth

- A5.1** Datblygu ein Strategaeth Ddigwyddiadau ar y cyd â budd-ddeiliaid allweddol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hasedau allweddol e.e. chwaraeon dŵr, gweithgareddau awyr agored, digwyddiadau diwylliannol, Theatr Colwyn, Venue Cymru a Pharc Eirias.
- A5.2** Adolygu ein hymagwedd tuag at gaffael i gefnogi'r economi lleol.
- A5.3** Bod yn fwy rhagweithiol wrth gefnogi ac ymgysylltu â busnesau newydd, yn lleol ac yn rhanbarthol (gan gynnwys busnesau gwledig), er mwyn deall anghenion busnes, a gweithredu yn eu cylch pan fo hynny'n bosibl, a'u cefnogi i ymgeisio am gontractau busnes.
- A5.4** Gwneud y gorau o gyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael i breswylwyr Conwy mewn datblygiadau allweddol ar draws y rhanbarth.
- A5.5** Hyrwyddo rhagor o fewnfuddsoddiad.
- A5.6** Gweithredu a chydlynu cynlluniau fel Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf i helpu teuluoedd symud allan o dlodi.

Canlyniad 6) – Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy

Gellir diffinio **cynaliadwy** fel *'datblygiad sy'n cwrdd ag anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'*

Cynaliadwyedd yw cymryd cyfrifoldeb am effeithiau hir dymor ein gweithredoedd o'r gorffennol a'r presennol ar ein hamgylchedd naturiol, ein cymunedau a'n heconomi a delio â'r materion i'w rhwystro rhag peryglu goroesiad cenedlaethau sydd i ddod.

Camau Blaenoriaeth

- A6.1** Parhau i gynnal, gwella a rhoi cyhoeddusrwydd i ansawdd ein gwarchodfeydd natur, ein traethau a'n parciau.
- A6.2** Rhoi'r strategaeth ar waith yn y Fwrdeistref Sirol i fynd i'r afael â safleoedd sy'n 'ddolur llygad'.
- A6.3** Gweithredu Cynllun Rheoli Carbon i ostwng gollyngiadau carbon y Cyngor.
- A6.4** Gweithredu'r System Reolaeth Amgylcheddol a elwir yn 'Y Ddraig Werdd'. Dyluniwyd y safon hon i hyrwyddo rheolaeth dda o'r amgylchedd o fewn sefydliadau. Mae 5 lefel i'w cyflawni – a 5 yw'r safon uchaf.
- A6.5** Parhau i archwilio manteision technoleg newydd o safbwynt arbed costau ac amser er mwyn moderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio.
- A6.6** Lleihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a chyrraedd ein targedau ailgylchu statudol

Canlyniad 7) - Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu

Camau Blaenoriaeth

- A7.1** Hyrwyddo manteision siarad Cymraeg a gwneud gwaith i fynd i'r afael â'r canfyddiadau a'r rhwystrau rhag dysgu Cymraeg.
- A7.2** Cefnogi rhagor o ysgolion cynradd i ddysgu o leiaf 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.
- A7.3** Gweithredu Cynllun Cyrchfan Conwy a Strategaeth Twristiaeth Treftadaeth ar y cyd â phartneriaid lleol er mwyn denu ymwelwyr i ardaloedd o ddiddordeb nad ydynt mor adnabyddus.

Canlyniad 8) Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais

Camau Blaenoriaeth

Byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

Pwy ddylen ni ymgysylltu â nhw
Beth ddylen ni ymgysylltu amdanynt
Sut rydym yn ymgysylltu
Pryd rydym yn ymgysylltu

- A8.1** Datblygu ein strategaeth ymgysylltu yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru² er mwyn gwella ein dull gweithredu a sicrhau safon dda o ymgysylltu â chymunedau. Nod yr Egwyddorion yw ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau amserol, di-jargon i ddylanwadu ar ddatblygiadau'r Cyngor ac i sicrhau fod pobl yn clywed beth yw effaith eu cyfraniad.
- A8.2** Sicrhau bod Aelodau Etholedig a Chynghorau Tref a Chymuned yn hwyluso rhannu gwybodaeth ac yn helpu cymunedau lleol i leisio eu barn.
- A8.3** Datblygu rhaglen gwsmeriaid i gydlynu'r amrywiol brosiectau cwsmer sydd gennym er mwyn gwella ein hagwedd at wasanaeth i gwsmeriaid.
- A8.4** Gweithredu'r 5 cynllun ardal er mwyn gwella gwasanaethau cymunedol lleol. Mae cynlluniau ardal wedi cael eu datblygu gyda chymunedau ledled y fwrdeistref sirol ac maent yn blaenoriaethu'r gwaith y mae'r cymunedau lleol wedi dweud eu bod eisiau ei weld yn cael ei wella yn eu hardal.
- A8.5** Gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn ôl eu hanghenion.

² I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.participationcymru.org.uk/principles

Canlyniad Cyffredinol - Effeithlon ac wedi'i Reoli yn Dda

G1	Byddwn yn ceisio gwella gwasanaethau a diwallu ein targedau arbedion drwy foderneiddio'r modd yr ydym yn gweithio ac adolygu o ble y byddwn yn gweithio (gofod swyddfa).
G2	Byddwn yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu Ewropeaidd a chyfleoedd ariannu allanol eraill
G3	Rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r Compact Cymru Gyfan ar Gydweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol eraill
G4	Bydd staff yn cael Adolygiadau Datblygu Perfformiad blynyddol i sicrhau eu bod yn gwybod beth yw eu blaenoriaethau gwaith, sut mae eich gwaith yn cyfrannu at y darlun ehangach a pha gyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu eu sgiliau.

4. TUEDDIADAU ECONOMAIDD

Mae cyflawni amcanion tymor hir y Cyngor yn gofyn am gynllunio mentrau newydd, datblygiadau cyfalaf a dyrannu adnoddau mewn ymateb i anghenion newidiol y gwasanaeth dros fwy nag un flwyddyn. Mae'r SATC felly yn ystyried goblygiadau tymor hir y canlynol:

- Cyfraddau Llog
- Mynegai Prisiau
- Dyraniadau Demograffig
- Mentrau polisi gan y Cyngor a'r Llywodraeth

Cyfraddau Llog

Mae cyfraddau llog yn arbennig o bwysig i'r Cyngor, gan eu bod yn effeithio ar ei berfformiad wrth fuddsoddi a benthyca. Mae'r gyfradd sylfaenol wedi aros ar 0.5% ers mis Mawrth 2009, ac ni ddisgwylir iddo gynyddu yn y tymor byr. Cyfarfu Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) ar 7 Tachwedd 2013, a phleidleisiwyd i gadw Cyfradd Sylfaenol y Banc ar 0.5%. Nid yw'r MPC yn bwriadu codi cyfraddau banc o'i lefel bresennol o 0.5% o leiaf nes y bydd mesur cyfradd diweithdra'r Arolwg Llafurlu wedi gostwng i drothwy o 7%. Mae'r gyfradd ddiweithdra genedlaethol ar gyfer Medi i Tachwedd 2013 yn 7.1%, i lawr o 7.7% y flwyddyn flaenorol, a 8.4% ddwy flynedd yn gynharach, ond yn uwch na cyn dirywiad 2008/09. Er bod hyn yn agos at y trothwy, mae Arlingclose, sef ymgynghorwyr y Cyngor ar Bolisi Rheoli'r Trysorlys, yn rhagweld bod y gyfradd banc swyddogol yn debygol o aros ar 0.5% fel y dangosir isod:

TABL 2

	Mar-14	Jun-14	Sep-14	Dec-14	Mar-15	Jun-15	Sep-15	Dec-15	Mar-16	Jun-16	Sep-16	Dec-16	Mar-17
Official Bank Rate													
Upside risk		0.25	0.25	0.25	0.25	0.50	0.50	0.75	0.75	0.75	1.00	1.00	1.00
Arlingclose Central Case	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.75	0.75	1.00	1.00
Downside risk										0.25	0.25	0.50	0.50
3-month LIBID rate													
Upside risk	0.20	0.25	0.30	0.35	0.40	0.50	0.75	0.75	0.75	1.00	1.00	1.00	1.10
Arlingclose Central Case	0.45	0.45	0.50	0.55	0.65	0.70	0.75	0.80	0.90	1.00	1.10	1.20	1.25
Downside risk			0.05	0.10	0.20	0.25	0.30	0.35	0.45	0.55	-0.65	-0.75	-0.80
1-yr LIBID rate													
Upside risk	0.35	0.30	0.35	0.40	0.45	0.50	0.60	0.70	0.75	0.75	0.75	0.80	0.80
Arlingclose Central Case	0.90	0.95	0.95	0.95	1.00	1.05	1.10	1.20	1.30	1.40	1.50	1.60	1.70
Downside risk	-0.25	-0.25	-0.25	-0.30	-0.35	-0.40	-0.45	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50
5-yr gilt yield													
Upside risk	0.20	0.30	0.40	0.50	0.60	0.70	0.80	0.90	1.00	1.00	1.10	1.10	1.20
Arlingclose Central Case	1.70	1.75	1.85	1.95	2.00	2.00	2.05	2.10	2.20	2.35	2.50	2.65	2.80
Downside risk	-0.20	-0.20	-0.30	-0.40	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.50	-0.75	-0.80	-0.90	-1.00
10-yr gilt yield													
Upside risk	0.20	0.35	0.45	0.50	0.60	0.70	0.75	0.80	0.90	0.90	0.95	1.00	1.00
Arlingclose Central Case	2.75	2.80	2.90	2.95	3.00	3.10	3.20	3.30	3.40	3.50	3.60	3.70	3.80
Downside risk	-0.20	-0.30	-0.40	-0.50	-0.55	-0.60	-0.70	-0.80	-0.90	-0.95	-1.00	-1.05	-1.05
20-yr gilt yield													
Upside risk	0.30	0.40	0.50	0.60	0.75	0.85	0.90	0.95	1.00	1.05	1.05	1.05	1.05
Arlingclose Central Case	3.35	3.40	3.45	3.55	3.60	3.60	3.65	3.70	3.75	3.80	3.85	3.90	3.95
Downside risk	-0.30	-0.40	-0.50	-0.55	-0.60	-0.60	-0.60	-0.60	-0.65	-0.70	-0.75	-0.80	-0.80
50-yr gilt yield													
Upside risk	0.30	0.40	0.50	0.60	0.75	0.85	0.90	0.95	1.00	1.05	1.05	1.05	1.05
Arlingclose Central Case	3.45	3.50	3.55	3.60	3.65	3.70	3.75	3.80	3.85	3.95	4.00	4.05	4.10
Downside risk	-0.30	-0.40	-0.50	-0.55	-0.60	-0.60	-0.60	-0.60	-0.65	-0.70	-0.75	-0.80	-0.80

Arlingclose Cyf: Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llog (Ionawr 2014).

Mynegai Prisiau

Mae gan MPC Banc Lloegr darged Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) o 2%. Syrthiodd y CPI ar gyfer Rhagfyr 2013 i'r targed o 2% o 2.1% ym mis Tachwedd a 2.2% ym mis Hydref 2013. Daeth y cyfraniadau mwyaf at y gostyngiad o gludiant (yn enwedig tanwydd modur) a'r sectorau addysg (ffioedd dysgu) ac fe'u cefnogwyd gan ostyngiad mewn bwyd a diodydd di-alcohol a nwyddau a gwasanaethau hamdden. Gwelodd y cwmp annisgwyl chwyddiant CPI yn syrthio i'w gyfradd isaf am fwy na blwyddyn. Roedd y ffigur yn is na'r rhagolygon o 2.5% a dyma'r isaf ers mis Medi 2012. Ond, mae cynnydd mewn prisiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y rhan fwyaf o gwmnïau ynni mawr y DU eto i ddod i rym a bydd yn cael effaith ar chwyddiant yn y misoedd nesaf.

Mae Banc Lloegr yn rhagweld bod y CPI yn annhebygol o fynd yn is na 2% yn y dyfodol agos; mae'n ymddangos yn debygol y bydd chwyddiant CPI yn aros o gwmpas y targed o 2% ar gyfer gweddill 2014.

Tyfodd y Mynegai Prisiau Adwerthu (RPI) 2.7% yn y flwyddyn a ddaeth i ben Rhagfyr 2013, i fyny o 2.6% ym mis Tachwedd 2013. Mae'r RPI, sydd yn cynnwys costau tai, bellach wedi gostwng i'r cyfraddau a oedd yn bodoli cyn y dirwasgiad.

Dyraniadau Demograffig

Gall ddylanwadau demograffig a dylanwadau cenedlaethol eraill gael canlyniadau pellgyrhaeddol. Felly, mae'n hanfodol i'r Cyngor gydnabod y rhain fel materion pwysig wrth bennu blaenoriaethau a chynllunio ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cael eu hystyried wrth lunio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn cael eu cydnabod fel y bo'n briodol mewn achosion busnes o fewn y Fframwaith Cynllunio Busnes.

Poblogaeth

Mae poblogaeth Conwy yn newid o ran strwythur oedran.

Mae canran y boblogaeth yng Nghonwy sy'n 65 oed a hŷn yr uchaf yng Nghymru sef bron i 25 y cant, cyfanswm o 28,200 o bobl. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn yn y sir yn cynyddu yn sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf o ganlyniad i gynnydd mewn disgwyliad hyd oes a'r genhedlaeth 'baby boom' yn ymddeol. Bydd hyn yn cynyddu nifer y bobl dros 65 oed cymaint ag 20% a nifer y bobl dros 85 oed cymaint â 40% erbyn 2025. Ar yr un pryd mae nifer y plant dan 16 oed wedi gostwng o 20,200 yn 2001 i 19,000 yn 2012.

TABL 3 Amcangyfrifon ac amcanestyniadau poblogaeth - Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru

Blwyddyn	Cyfanswm y Boblogaeth	O dan 16	16 i 64	65 oed a hŷn
2001	109,674	20,201	64,128	25,345
2002	110,624	20,214	64,786	25,624
2003	111,248	20,121	65,324	25,803
2004	112,272	20,186	66,063	26,023
2005	112,374	19,909	66,339	26,126
2006	113,004	19,734	66,896	26,374
2007	113,778	19,481	67,668	26,629
2008	114,371	19,321	67,948	27,102
2009	114,623	19,278	67,897	27,448
2010	114,682	19,149	67,621	27,912
2011	115,326	19,063	67,881	28,382
2012	115,515	19,069	67,285	29,161
2013	115,604	18,995	66,758	29,850
2014	115,753	19,027	66,329	30,397
2015	115,909	19,055	66,017	30,836
2016	116,065	19,096	65,667	31,302
2017	116,217	19,201	65,407	31,610


Diweithdra

Mae cyfraddau diweithdra wedi'u hamcangyfrif yn genedlaethol yn seiliedig ar ddata o'r arolwg poblogaeth blyneddol, ond nid yw'r amcangyfrifon hyn yn gywir ar gyfer awdurdod lleol bach fel Conwy. Fel procsi i fonitro tueddiadau lleol mae nifer y bobl sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith yn cael ei ddefnyddio.

TABL 4 Canran y bobl 16 i 64 oed sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith - Swyddfa Ystadegau Gwladol

	Conwy	Cymru	Prydain Fawr
Rhagfyr 2006	2.1%	2.2%	2.3%
Rhagfyr 2007	2.3%	2.0%	2.0%
Rhagfyr 2008	3.1%	3.1%	2.9%
Rhagfyr 2009	4.0%	4.0%	3.9%
Rhagfyr 2010	3.5%	3.6%	3.5%
Rhagfyr 2011	3.9%	4.0%	3.8%
Rhagfyr 2012	3.9%	4.0%	3.7%
Rhagfyr 2013	3.5%	3.3%	2.9%

Nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yng Nghonwy - Swyddfa Ystadegau Gwladol



Mae'r dirywiad economaidd wedi effeithio ar Gonwy mewn ffordd debyg i weddill Cymru a Phrydain Fawr, ond mae arwyddion cynnar yn dangos fod y Sir yn gwella yn arafach. Yr hyn sy'n cael effaith sylweddol ar yr economi leol yw nifer y busnesau bach a chyfran uchel y swyddi yn y sector cyhoeddus.

Cynhelir dadansoddiad manwl o'r economi leol yn chwarterol ac mae'n cael ei adolygu gan y Cabinet. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor dan y teitl "Bwletin Ymchwil Monitro'r Economi".

5. YR HER ARIANNOL

Wrth ystyried y dyfodol, mae'n bwysig ystyried y data a'r wybodaeth a gyflwynwyd yn gynharach, yn benodol, cydnabyddir y bydd lefelau demograffeg a diweithdra Conwy effeithio ar ein pwysau a'r her ariannol yn gyffredinol.

Adolygiad Gwariant 2013

Mae'r Adolygiad Gwariant yn broses a arweinir gan Drysorlys EM i ddyrannu adnoddau ar draws holl adrannau'r llywodraeth yn unol â blaenoriaethau'r Llywodraeth. Mae Adolygiadau Gwariant yn pennu cyllidebau gwariant cadarn a sefydlog dros nifer o flynyddoedd ar gyfer pob adran. Yna, cyfrifoldeb pob adran yw penderfynu ar y ffordd orau o reoli a dosbarthu'r gwariant hwn o fewn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae Adolygiad Gwariant 2010 (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010) yn cynnwys y cyfnod 2011/12 i 2014/15. Dywedwyd ar y pryd y byddai'n rhaid i Lywodraeth Leol ysgwyddo baich toriad o tua 28% dros y cyfnod o bedair blynedd; gyda mwyafrif y toriadau o'r dechrau, h.y. toriadau mwy yn y ddwy flynedd gyntaf. Mewn gwirionedd, mae Llywodraeth Leol wedi gorfod delio â thoriadau o 33% dros y pedair blynedd.

Yn ei adroddiad ar y Gyllideb 2013 (20 Mawrth 2013), cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys ("y Canghellor") mai'r themâu sy'n cymell Adolygiad Gwariant 2013 fydd twf, effeithlonrwydd a diwygio gwasanaethau cyhoeddus. Amlinellodd toriadau pellach o 1% a chadarnhaodd y byddai gwariant refeniw yn parhau i ostwng i 2017/18.

Rownd Gwariant 2013

Ar 26 Mehefin 2013 cyhoeddodd y Canghellor fanylion Rownd Gwariant 2015-16. Yn yr araith hon nododd y cyllidebau adrannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015 i 2016. Cyhoeddodd y Canghellor y byddai £11.5 biliwn o arbedion yn cael eu canfod o gyllidebau llywodraeth er mwyn parhau ar hyd y llwybr Prydain o leihau'r diffyg. Yn y rownd newydd hwn o doriadau mewn gwariant cyhoeddus, mae llywodraeth leol wedi'i daro yn galed eto, ac mae'r sector yn wynebu gostyngiad o 10% mewn gwariant yn ystod 2015/16³.

Effaith Rownd Gwariant 2015-16 ar Gymru

Yn dilyn cyhoeddiad manylion gwariant Llywodraeth y DU ar 26 Mehefin, 2013, cyhoeddodd y Canghellor doriad o bron i 2% ar gyfer gwariant adnoddau Llywodraeth Cymru⁴. Felly, mae Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi gorfod paratoi ei hun ar gyfer dyfodol ariannol llym. Gyda Llywodraeth Cymru yn gorfod gwneud tua £110 miliwn o arbedion yn 2013 a 2014, a thoriadau pellach ar gyfer 2015, mae gostyngiad mor fawr i'r cyllid "Bloc Cymru" wedi golygu bod y rhagolygon ariannol o ran faint o arian fydd ar gael i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol yng Nghymru wedi gorfod cael ei leihau'n sylweddol. Mae meysydd gwasanaeth sydd heb eu diogelu fel cludiant,

³ Grŵp Diddordeb Arbennig Awdurdodau Bwrdeistrefol yn y Gymdeithas Llywodraeth Leol (SIGOMA) 26 Mehefin 2013.

⁴ Cymru ar lein - 26 Mehefin 2013.

hamdden, llyfrgelloedd, y strydlun a diwylliant yn debygol o ddioddef pwysau ariannol sylweddol a chynyddol yn y dyfodol⁵.

Ym mis Gorffennaf 2013, rhyddhaodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bapur a oedd yn nodi'r heriau sy'n wynebu'r cyngor arferol yng Nghymru gyda senario setliad refeniw posibl yn debyg i'r hyn a welwyd yn Lloegr. Bydd unrhyw doriadau i gyllidebau cynghorau yn effeithio ar nifer y swyddi a lefelau gwasanaeth, gyda difrifoldeb y canlyniadau yn cynyddu'n sylweddol pan fydd effeithiau chwyddiant, codiadau cyflog a thwf demograffig yn cael eu cynnwys.

Mae'r papur yn dangos y toriadau tebygol efallai y bydd angen eu gwneud i Gyngorau maint cyfartalog yng Nghymru, fel yr amlinellir isod:

- Torri gwariant gwasanaethau diwylliannol 75% dros y ddwy flynedd nesaf, ac o bosibl cau orielau celf ac amgueddfeydd
- Gostyngiad o 25% yn y gwariant ar gynllunio yn 2014/15
- Cau yr holl gyfleusterau chwaraeon a hamdden os na ellir eu trosglwyddo i drydydd sector neu eu gweithredu yn fasnachol (heb gymhorthdal) gan sefydliadau cydfuddiannol neu hyd braich
- Lleihau gwariant llyfrgelloedd 50% dros gyfnod o ddwy flynedd, gan gadw hanner y cyfleusterau hynny ar agor i weithredu fel canolbwyntiau ar gyfer newidiadau diwygio lles
- Lleihau gwariant priffyrdd cymaint â chwarter yn 2015/16
- Diffodd hyd at 50% o oleuadau stryd rhwng hanner nos a 5am yn 2014/15 ac i gyd o 2015/16
- Haneru gwariant ar ddatblygu economaidd yn 2015/16
- Chwarteru cyllidebau gweinyddu cyffredinol a chyllidebau swyddfa cefn yn 2015/16
- Haneru cyllid y trydydd sector yn 2015/16.

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain ar gyfer Cyngor cyfartalog yng Nghymru, ond maent yn tynnu sylw at faint o doriadau a allai fod angen eu gwneud.

6. Y GYLLIDEB REFENIW 2014/15

Mae'r amserlen ar gyfer cynhyrchu Cyllideb Refeniw 2014/15 wedi ei chynnwys o fewn y Fframwaith Cynllunio Busnes a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 9 Gorffennaf, 2013 (Cofnod 169). Un o nodweddion allweddol y broses oedd dechrau yn gynnar yn y flwyddyn, cyn yr haf, a gosod dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd hyd at osod y gyllideb a Threth y Cyngor ar 20 Chwefror 2014.

⁵ Mae Adolygiad Gwariant CLILC yn golygu realiti ariannol newydd ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (26 Mehefin 2013).

Hysbyswyd yr aelodau am gynnydd y gyllideb referniw trwy gyfrwng adroddiadau rheolaidd i'r Cyngor, y Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet.

Yn ystod y broses gynllunio ar gyfer cyllideb 2014/15, ffurfiwyd Grwpiau Cyllideb ac Effeithlonrwydd yr Aelodau fel ymateb uniongyrchol i'r heriau ariannol enbyd a wynebir gan yr Awdurdod. Cylch gwaith y Grwpiau oedd adolygu a herio gwasanaethau mewn perthynas â chyflawni arbedion yn y gyllideb, i adolygu trefniadau caffael a chyllidebau sylfaenol, ac i ddefnyddio meincnodi a syniadau arfer gorau ar gyfer cyflawni arbedion gwasanaeth.

Mae'r broses gyllidebol yn ystyried cydraddoldeb fel rhan o'r camau o gynllunio gwasanaethau. Bydd yr holl fentrau gostyngiad cyllidebol yn cael eu hadolygu gan wasanaethau i benderfynu a oes angen Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ai peidio. Rhaid cydnabod hefyd bod buddsoddiad ychwanegol, yn enwedig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n arwain at effeithiau cydraddoldeb cadarnhaol. Mewn perthynas â Threth y Cyngor, treth sy'n seiliedig ar eiddo yw hwn. Gan ei bod yn debygol y gall pobl hŷn neu unigolion ag anabledd fod ar incwm is ac felly yn wynebu heriau o ran fforddiadwyedd, mae'r Cynllun Cymorth Treth y Cyngor sy'n seiliedig ar brawf modd, ynghyd â'r Grant Pensiynwyr gyfer Treth y Cyngor yn darparu lefel o gefnogaeth i'r rhai sy'n gymwys.

Mae'r diffyg a amcangyfrifwyd y cynlluniwyd ar ei gyfer yng Nghonwy ar gyfer 2014/15, wrth i'r dirwedd ariannol newid dros amser, wedi'i ddangos yn Nhabl 5 isod:

TABL 5

Amserlen	Gwybodaeth ar gael	Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau	Diffyg Adnoddau £'000
Tachwedd 2011 i Chwefror 2012	Setliad Dangosol	Chwefror 2012	6,798
Chwefror 2012 i Chwefror 2013	Setliad Dangosol	Chwefror 2013	6,781
Mawrth 2013 i Gorffennaf 2013	Llythyrau a chyngor i lywodraeth leol	Gorffennaf 2013 (Senario 4)	14,115
Hydref 2013	Setliad Dros Dro	Tachwedd 2013	14,617
Rhagfyr 2013 i Chwefror 2014	Setliad Terfynol	Ionawr 2014	14,772

Ymgynghori ar y Gyllideb 2014/15

Ymgynghorwyd â'r canlynol ynglŷn â chyfeiriad strategol y gyllideb, ac roeddent i gyd yn gefnogol o ymagwedd Conwy:

Aelodau Etholedig

Fforwm Cyllideb Ysgolion

Y Cyngor Staff

Y Fforwm Rheolwyr

Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Ein Cydweithwyr Undeb

Roedd y Negeseuon Allweddol i wasanaethau ar gyfer y gwaith o lunio cyllideb fel a ganlyn:

- Dylid blaenoriaethu cyfleoedd i wella effeithlonrwydd gwasanaethau'r Cyngor, er enghraifft, lleihau gwastraff ac aneffeithlonrwydd, moderneiddio ffyrdd o weithio.
- Dylid edrych ar gyfleoedd i ddarparu gwasanaethau'n wahanol gan gynnig gwell gwerth am arian, er enghraifft, mwy o gydweithio gyda phartneriaid, comisiynu darparwyr gwasanaethau mewn sectorau eraill, atgyfnerthu gwasanaethau ac annog mwy o gyfrifoldeb cymunedol. Ond, dylid monitro gwaith partneriaeth a gweithio ar y cyd yn ofalus i sicrhau bod ansawdd da o wasanaethau wedi'i gefnogi gan achos busnes cadarn.
- Dylai unrhyw leihad mewn cyllidebau ar draws y Cyngor gael eu lledaenu ar draws pob maes gwasanaeth yn berthynol i'w gallu canfyddedig i ddarparu gostyngiadau cyllideb o'r fath.
- Dylai'r Cyngor gynyddu incwm o ffioedd a thaliadau a gwneud y gorau o'r defnydd o wasanaethau a chyfleusterau'r Cyngor i gynyddu incwm maent yn ei gynhyrchu, yn ogystal â chwilio am ffyrdd newydd, mwy arloesol o gynhyrchu incwm.
- Dylid adolygu adnoddau cyfalaf i archwilio rhyddhau cyfleoedd ariannu i gynorthwyo'r gyllideb refeniw.
- Dylid adolygu rheoli asedau i ddarparu cyfleoedd i sicrhau arbedion refeniw.
- Dylid adolygu rheoli'r galw er mwyn darparu cyfleoedd i leihau gwariant cyfredol a gwariant a ragwelir.
- Dylid canolbwyntio ar fesurau ataliol a chefnogaeth i leihau'r galw am wasanaethau yn y dyfodol.
- Wrth lunio'r gyllideb dylai Gwasanaethau gymryd cyfleoedd i gyflawni arbedion wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau.

Pwysau ar y Gwasanaeth

Mae pwysau gwasanaeth mawr na ellir eu hosgoi yn cael eu costio a bydd yn cael ei gynnwys yn y broses o gynllunio'r gyllideb a'i adlewyrchu yn y diweddariad SATC yn flynyddol. Mae ceisiadau am bwysau gwasanaeth yn dilyn y broses o gynllunio'r gyllideb. Mae'r rhain yn destun adolygiad gan yr Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet cyn unrhyw argymhelliad i'r Cyngor. Bydd unrhyw bwysau gwasanaeth na ddarparwyd ar eu cyfer, neu eu rhagweld yn cael eu hariannu drwy gyllidebau gwasanaeth presennol, ac mewn achosion eithriadol yn bwysau ar yr Awdurdod cyfan.

7. YMATEB I'R DIFFYG ADNODDAU

Yn amlwg, bydd angen gostyngiadau cyllidebol sylweddol yn y blynyddoedd 2015-2018 o ganlyniad i'r diffyg adnoddau a ragwelir fel y dangosir yn y Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig (MTFF).

TABL 6

2014-2015 Diffyg £'000	2015-2016 Diffyg £'000	2016-2017 Diffyg £'000	2017-2018 Diffyg £'000
14,772	12,795	9,114	7,555

Mae angen sicrhau bod goblygiadau gostyngiadau cyllidebol yn cael eu hystyried yng ngoleuni'r effaith ar ddinasyddion a'r gymuned, a disgwylir y bydd yn cael ei wneud yn yr un modd ag y mae Conwy wedi mynd i'r afael â'r materion hyn mewn newidiadau gwasanaeth blaenorol.

Mae'n rhaid i'r meysydd allweddol a ganlyn ffurfio rhan o strategaeth yr Awdurdod i gau'r bwch ariannol sy'n dod i'r amlwg: -

(i) **Ail-lunio Gwasanaethau**

Mae Conwy wedi ymgymryd â nifer o ddulliau strategol o reoli ein hadnoddau, ac wedi bod yn gwella'r ffyrdd o weithio ers blynyddoedd lawer. Mae rhan o'n Cynllun Corfforaethol yn cynnwys yr ymrwymiad

“Byddwn yn ceisio gwella gwasanaethau a diwallu ein targedau arbedion drwy foderneiddio'r modd yr ydym yn gweithio ac adolygu o ble y byddwn yn gweithio (gofod swyddfa). Byddwn yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu Ewropeaidd a chyfleoedd ariannu allanol eraill.”

Mae llwyddiant Conwy o ran darparu agwedd strategol at arbedion wedi'i hen sefydlu, oherwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi edrych ar ffyrdd o symleiddio a gwella ein gwasanaethau a'u gwneud yn fwy effeithlon. Mae pwysau'r galw cynyddol, disgwyliadau a llai o adnoddau yn golygu bod yn rhaid i ni barhau i newid y ffordd rydym yn gweithio i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol yn y defnydd o'n hadnoddau.

Er mwyn datrys y pwysau ar y gyllideb a gwella effeithlonrwydd ar draws yr Awdurdod, mae gennym nifer o raglenni sy'n ceisio gwella gwasanaethau a moderneiddio'r modd rydym yn gweithio. Nod y rhaglenni yw gwella effeithlonrwydd ac ail-lunio ein gwasanaethau i fodloni disgwyliadau ein trigolion, tra'n cynnal ein hymrwymiad i'r rhai mwyaf diamddiffyn.

A) Moderneiddio gwasanaethau rheng flaen

- Moderneiddio'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

B) Rhaglenni Rhanbarthol

Mae nifer o raglenni rhanbarthol y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn eu harwain neu yn bartner ynddynt:

- Gwella Ysgolion Rhanbarthol
- Uchelgais Economaidd
- Cynllunio Rhag Argyfwng
- Caffael Cenedlaethol
- Gwasanaethau Cyfreithiol Rhanbarthol
- Caffael TGCh
- Bwrdd Rhaglen Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Rhanbarthol
- Gwastraff Gweddilliol

C) Moderneiddio Adnoddau

- Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd
- Moderneiddio Llyfrgelloedd
- Y Rhaglen Foderneiddio Gyffredinol, gan gynnwys swyddfeydd

Nid yw'n bosibl dweud yn union faint y bydd y mentrau hyn yn ei wireddu yn y tair blynedd ganlynol ond mae amcangyfrif o arbedion wedi'i ddangos isod:

TABL 7

Thema	Arbediad Posibl 2015-2016 £'000	Arbediad Posibl 2016-2017 £'000	Arbediad Posibl 2017-2018 £'000
Moderneiddio gwasanaethau rheng flaen	3,000	2,000	2,000
Moderneiddio Adnoddau	500	1,000	500
Ysgolion	916	1,400	1,400
Cyfanswm y flwyddyn	4,416	4,400	3,900

D) Rhaglenni Adfywio

- Rhaglen Adfywio Cyffordd Llandudno
- Prif Gynllun Bae Colwyn
- Cynllun Gweithredu Gweledigaeth Llanrwst

(ii) Ffioedd, Taliadau a Chynhyrchu Incwm

Fel rhan o'r ymarfer pennu cyllideb flynyddol bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn ystyried eu cyfrifoldeb am osod ffioedd yn eu maes gwasanaeth perthnasol ac am sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod lefelau'r taliadau yn cael eu gosod i adfer y gost

Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

yn llawn. Dylai Penaethiaid Gwasanaeth gynyddu ffioedd a thaliadau o leiaf yn unol â chyfradd chwyddiant.

Anogir rheolwyr i archwilio a manteisio ar gyfleoedd busnes newydd sydd ar gael iddynt, trwy arallgyfeirio gwasanaethau, ehangu gwaith partneriaeth a chymryd agwedd mwy trwyadl at ffyrdd presennol o weithio. Disgwylir i Reolwyr hefyd wneud y gorau o ffynonellau allanol o gyllid ac archwilio cyllid nawdd ar gyfer gweithgareddau craidd. Mae'r cyhoeddiad gan CIPFA - 'Canllaw Ymarferol i Gynhyrchu Incwm' yn ganllaw ar gyfer rheolwyr cyllid, rheolwyr gwasanaeth a Chynghorwyr ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn ffioedd a chynhyrchu taliadau.

Mae prosiect ar y gweill ar hyn o bryd i ddatblygu incwm o gyfleoedd hysbysebu a nawdd ar draws stoc asedau cyfan y Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys chwilio am nawdd ar gyfer rhai o asedau chwaraeon a diwylliannol mawr y Cyngor a gosod contractau ar gyfer hysbysebu mewn meysydd parcio, llochesau bws ac adeiladau priodol eraill.

Contract ar gyfer Gwasanaethau

Mae nifer o fentrau sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu incwm. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Gwasanaethau Cyfieithu
- Gwasanaeth Ymchwil
- Cyflogau
- Noddi a Hysbysebu

Dyma amcangyfrif o'r incwm ychwanegol y gellir ei gynhyrchu:

TABL 8

Arbediad Posibl 2015-2016 £'000	Arbediad Posibl 2016-2017 £'000	Arbediad Posibl 2017-2018 £'000
500	500	500

(iii) **Rheoli'r Trysorlys a Gwario i Arbed**

Mae'r ymateb yn cynnwys adolygiad cadarn o sut yr ydym yn ariannu ac yn defnyddio ein hadnoddau cyfalaf gyda'r bwriad o gyflawni arbedion refeniw. Mae'r tabl isod yn dangos yr arbedion posibl ar draws y blynyddoedd 2015-2016 i 2017-2018.

TABL 9

Arbediad Posibl 2015-2016 £'000	Arbediad Posibl 2016-2017 £'000	Arbediad Posibl 2017-2018 £'000
208	215	215

(iv) **Gwasanaethau Blaenoriaeth Is a Rheoli'r Galw**

Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Yn amlwg, mae angen i'r broses ddemocrataidd fynd i'r afael â'r diffygion o ran adnoddau sy'n dod i'r amlwg drwy adolygu ein lefel bresennol o ddarpariaeth gwasanaeth yn feirniadol a chefnogi ffyrdd y gall rheoli'r galw leihau gwariant, naill ai'n uniongyrchol neu drwy fesurau ataliol. Nid yw'n briodol i ragweld gostyngiadau cyllidebol posibl yn y maes hwn ar hyn o bryd.

(v) Lefelau Treth y Cyngor

Treth y Cyngor Conwy ar Fand D yw un o'r isaf yng Nghymru; mae angen ystyried codiadau yn y dyfodol o ddifrif oherwydd tri prif reswm. Yn gyntaf, mae'r incwm ychwanegol ar gyfer gwasanaethau yn golygu bod ein blaenoriaethau gwasanaeth mewn gwell sefyllfa i gael eu cynnal, yn enwedig y gwasanaethau hynny sydd fwyaf agored i niwed. Yn ail, mae'r gefnogaeth Treth y Cyngor ar gyfer aelwydydd cymwys yn golygu y bydd y rhai sydd fwyaf tebygol o gael trafferth oherwydd y cynnydd yn cael eu cefnogi drwy'r trefniadau cymorth. Yn drydydd, pan fydd Ad-drefnu Llywodraeth Leol yn cael ei weithredu, bydd ein Treth y Cyngor isaf yn cael ei uno â Threth y Cyngor uwch ein partner(iaid) sy'n golygu y gallai 'Treth y Cyngor Conwy' gymorthdal ardal oedd eraill heb unrhyw fudd i'r gwasanaethau yng Nghonwy.

Felly, mae'r tabl isod yn cymryd yn ganiataol y bydd incwm ychwanegol o gynnydd blynyddol o 5%.

TABL 10

	2015-2016 £'000	2016-2017 £'000	2017-2018 £'000
Diffyg	12,795	9,114	7,555
Mesurau Posibl	5,124	5,115	4,615
Cynnydd Dangosol Treth y Cyngor	2,389	2,508	2,634
Gweddill Diffyg	5,282	1,491	306

Mae'r tabl uchod, mor betrus ag yr ydyw, yn dangos bod y diffyg yn ymddangos yn syth, ac y gall fod yn briodol i edrych ar ffyrdd y gellid llyfnhau'r diffyg blynyddol a'i gyfuno i osgoi pwysau dwys ac chynnwrf tebygol yn 2015/2016. Nid yw hynny yn golygu y gellir gwneud i'r diffyg ddiflannu'n llwyr, ond gan adeiladu ar y thema sy'n berthnasol i gyllideb 2014/2015, gall 'prynu amser' i sicrhau bod ein cynlluniau a'n rhaglenni cyfredol yn cyflawni eu potensial llawnaf fod yn ddull y gall yr Aelodau ei gefnogi i raddau llai ar gyfer 2015/2016 i 2017/2018.

8. CYLLID LLYWODRAETH LEOL

Daw'r arian ar gyfer y Cyngor o nifer o ffynonellau. Daw'r gydran fwyaf o arian gan Lywodraeth Cymru trwy grantiau y gellir eu defnyddio gan y Cyngor at ddibenion y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae'r grant unigol mwyaf y mae'r Cyngor yn ei dderbyn ar ffurf Cyllid Allanol Cyfun (AEF) sy'n cynnwys Grant Cynnal Refeniw a'r Grant Trethi Annomestig.

Mae Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol yn cynnwys y setliad terfynol ar gyfer llywodraeth leol ac yn nodi sut y mae LIC yn bwriadu dosbarthu'r AEF ar draws

Cymru. Mae'r Setliad yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr bob blwyddyn ac yn cynrychioli tua 78% o'r cyllid ar gyfer y Cyngorau.

Mae'r AEF yn cael ei ddyrannu drwy fformiwla gymhleth sydd, ymysg pethau eraill, yn ystyried angen cymharol yr ardal a'r gallu i godi trethi lleol (yn seiliedig ar sylfaen treth y cyngor yr ardal).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid i lywodraeth leol ar ffurf grantiau wedi'u neilltuo drwy ystod o grantiau penodol. Gellir defnyddio'r grantiau hyn yn unol ag amodau'r grant ar gyfer y dibenion penodol y maent yn cael eu darparu yn unig ac maent yn tueddu i gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Treth y Cyngor

Mae'r system Treth y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i breswylwyr lleol gyfrannu'n uniongyrchol at y gost o ddarparu gwasanaethau lleol. Mae Treth y Cyngor yn cael ei gyfrifo ar ôl ystyried anghenion gwariant y Cyngor a'i allu i ariannu hyn o ffioedd gwasanaethau, yr AEF, Grantiau Llywodraeth cyffredinol, y defnydd o arian wrth gefn a grantiau eraill.

Mae faint o Dreth y Cyngor a delir gan drigolion lleol yn seiliedig ar werth yr eiddo y maent yn byw ynddo. Mae eiddo domestig yn perthyn i un o naw band, A i I, ac mae faint o Dreth y Cyngor a delir yn cael ei bennu gan y band y mae'r eiddo ynddo

Defnyddiwyd sylfaen Treth y Cyngor 2014/15 ar gyfer Setliad Terfynol 2014/15. Mae nifer yr eiddo domestig yn y Sir a fynegwyd yn gyfwerth i eiddo Band D yn 54,320. Mae lefel Treth y Cyngor a delir gan eiddo Band D yn cael ei gyfrifo drwy rannu'r cyfanswm y mae angen i'r Cyngor ei godi o Dreth y Cyngor gyda'r sylfaen Treth y Cyngor. Yna, bydd hwn yn cael ei drosi i'r swm sy'n daladwy mewn eiddo eraill mewn bandiau eraill drwy gymhwyso lluosydd.


Mae'r Cyngor yn gyfyngedig o ran faint o'i gyllid y gellir ei godi o Dreth y Cyngor oherwydd 'capio'. Gellir defnyddio pwerau capio gan Lywodraeth Cymru i sicrhau na fydd y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn afresymol.

Wrth ddatblygu strategaeth Treth y Cyngor, rhaid i'r Cyngor gydbwyso rhwng anghenion defnyddwyr y gwasanaeth, sef y bobl mwyaf diamddiffyn yn ein cymdeithas yn aml, a baich Treth y Cyngor ar dalwyr Treth y Cyngor lleol.

Rhoddir cefnogaeth Treth y Cyngor ar ffurf prawf modd, sy'n helpu i amddiffyn tua 17% o aelwydydd yng Nghonwy. Hefyd, mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi pensiynwyr cymwys drwy'r cynllun Cymorth Pensiynwyr. Mae gostyngiad unigolyn sengl o 25% hefyd yn berthnasol i gartrefi priodol.

Gyda'r Llywodraeth yn rhoi cyfyngiadau ar lefel y cymorth grant cyffredinol, mae'r baich o ariannu'r galw cynyddol am wasanaethau yn effeithio ar lefel Treth y Cyngor, yr angen i ganfod arbedion effeithlonrwydd, a gostyngiadau cyllidebol i feysydd gwasanaeth eraill nad ydynt yn orfodol neu o flaenoriaeth uchel.

Siart 1: Treth y Cyngor band D ar gyfartaledd, 2013-14⁶



Mae'r siart uchod yn dangos cyfartaledd Treth y Cyngor band D ar gyfer awdurdodau bilio. Blaenau Gwent oedd â'r cyfartaledd Treth y Cyngor band D uchaf tra bod gan Sir Penfro y cyfartaledd isaf Treth y Cyngor band D; Conwy oedd â'r Treth y Cyngor awdurdod lleol trydydd isaf ym Mand D, ac roedd hefyd yn llawer is na chyfartaledd Cymru mewn perthynas â'r Treth y Cyngor llawn sy'n cynnwys yr Heddlu a Chynghorau Cymuned.

Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Mae Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) neu drethi busnes yn cael eu casglu gan y Cyngor ac yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Mae'r cyfraddau busnes yn cael eu cronni gan LIC ac yna eu hailddosbarthu i gynghorau fel rhan o'r setliad grant fformiwla blynyddol.

O ganlyniad i'r ddibyniaeth ar arian Llywodraeth Ganolog a chodi refeniw o'i gymunedau, ni ellir datblygu cyllideb y Cyngor a Chynlluniau Ariannol Tymor Canolig ar wahân. Rhaid iddynt ystyried y cyd-destun economaidd cenedlaethol fel y mae'n effeithio ar y Setliad Llywodraeth Leol a'r gallu i gynyddu refeniw yn lleol.

⁶ Ystadegau Cenedlaethol: Lefelau Treth y Cyngor yng Nghymru: 2013-14 (SDR 46/2013, 31 Mawrth 2013).

9. **SETLIAD TERFYNOL 2014/15**

Cyhoeddwyd y refeniw llywodraeth leol terfynol a'r setliad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ar 11 Rhagfyr, 2013, a chadarnhaodd hyn bod llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu gostyngiadau cyllid sylweddol. Mae Tabl 11 yn dangos, dan setliad terfynol y Cynghorau yng Nghymru, y bydd toriad ar gyfartaledd o 3.9% o'u cyllid craidd yn 2014/15 gan ddefnyddio ffigyrau CLILC gan ailddatgan yr AEF i adlewyrchu pwysau cyllido sylfaenol, a disgwylir y bydd toriadau pellach yn gadael llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu diffyg yn y gyllideb o £460 miliwn erbyn diwedd 2016.

TABL 11

Awdurdod Lleol	%	Awdurdod Lleol	%
Ynys Môn	-4.5%	Merthyr Tudful	-2.7%
Blaenau Gwent	-4.3%	Sir Fynwy	-5.0%
Pen y Bont ar		Castell-nedd Port	
Ogwr	-3.3%	Talbot	-4.4%
Caerffili	-3.4%	Casnewydd	-1.5%
Caerdydd	-3.4%	Sir Penfro	-4.2%
Sir Gaerfyrddin	-4.4%	Powys	-5.1%
Ceredigion	-5.1%	Rhondda Cynon Taf	-3.7%
Conwy	-4.1%	Abertawe	-3.6%
Sir Ddinbych	-5.2%	Torfaen	-3.9%
Sir y Fflint	-4.0%	Bro Morgannwg	-5.0%
Gwynedd	-4.6%	Wrecsam	-3.9%
Cyfartaledd Cymru	-3.9%		

Mae'r arian wedi cael ei ddsbarthu yn ôl proses ddsbarthu sy'n ystyried ffactorau megis nifer y disgyblion ysgol, y proffil oedran a maint y boblogaeth leol. Setliad 2014/2015 yw'r cyntaf i gynnwys ffigurau cyfrifiad 2011 ar gyfer rhai o'i ddangosyddion angen.

Wrth wneud y cyhoeddiad⁷, dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol Lesley Griffiths bod y setliad terfynol yn £4.26bn. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo £39.3miliwn o gyllid grant penodol i'r setliad. Wedi'i gynnwys yn y setliad a'r Grant Amddifadedd Disgyblion (£38m ychwanegol ar gyfer 2014/15) mae diogelwch ar gyfer cyllid ysgolion sy'n cyfateb i 1% uwchlaw'r newid yng nghyllideb Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU.

Dywedodd y gweinidog ei bod wedi cynnwys mecanwaith sy'n sicrhau nad oes un cyngor sengl yn wynebu "*gostyngiad na ellir ei reoli yn eu dyraniad*" o'i gymharu â'r llynedd, ac wedi trosglwyddo dros £30m mewn grantiau i roi mwy o hyblygrwydd i gynghorau wrth reoli adnoddau⁸. Mae'r setliad hefyd yn cynnal cyllid o £244m ar gyfer y Cynllun Lleihau Treth y Cyngor (CTRS) yn dilyn diddymu Budd-dal Treth y Cyngor gan Lywodraeth y DU⁹.

⁷ Setliadau Cyfalaf a Refeniw Llywodraeth Leol ar gyfer 2014/15:11 Rhagfyr 2013 Llythyr at Arweinwyr a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru.

⁸ Cymru Ar-lein 16 Hydref 2013- Cyllidebau Cynghorau Cymru wedi'u torri mewn 'cyd-destun ariannol digynsail'.

⁹ Cyfleoedd Llywodraeth 17 Hydref 2017: £4.26bn o arian wedi'i gyhoeddi i Awdurdodau Lleol Cymru

Y cyd-destun lleol – “effaith ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy”

Mae'r cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru yn dangos y bydd gan Gonwy leihad o 3.5% mewn cyllid grant (4.1% pan fydd yr AEF yn cael ei ailddatgan gan CLILC i adlewyrchu'r pwysau cyllido sylfaenol). Bydd rhaid i Gonwy wynebu diffygion o ran adnoddau a amcangyfrifir sydd o leiaf £44 miliwn yn ystod y pedair blynedd ariannol nesaf a bydd yn rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd.

Mae maint yr her ariannol yn golygu bod newid yn anochel. Bydd rhaid i ni flaenoriaethu gwasanaethau hanfodol, sy'n golygu gorfod gwneud rhai dewisiadau anodd ynglŷn â sut y gallwn wneud mwy am lai.

Mae Mesurau Allweddol Eraill yng Nghyllideb Drafft Llywodraeth Cymru yn cynnwys¹⁰:

- Buddsoddi £617.5 miliwn ychwanegol mewn prosiectau isadeiledd allweddol ledled Cymru, gan gynnwys £65.5 miliwn y flwyddyn hon, er mwyn cefnogi ein blaenoriaethau yng Nghynllun Buddsoddi Isadeiledd Cymru gan gynnwys tai, cludiant, ysgolion ac amddiffyn rhag llifogydd. Bydd y cyllid hwn yn creu ac yn cefnogi tua 11,000 o swyddi.
- Cynyddu'r gyllideb iechyd - gyda chyfanswm pecyn cyllid ychwanegol ar gyfer GIG Cymru o £570 miliwn dros dair blynedd, gan gynnwys £150 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon.
- Ymestyn Twf Swyddi Cymru gyda £12.5 miliwn ychwanegol i greu mwy na 4,000 o gyfleoedd swyddi ychwanegol ar gyfer pobl 16-25 oed yn 2015-16, a gefnogir gan arian cyfatebol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop.
- Diogelu cyllid ar gyfer Dechrau'n Deg - gyda gwerth £11 miliwn yn ychwanegol.
- Cynyddu buddsoddiad mewn ysgolion a darparu cyllid ychwanegol o £35 miliwn ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion yn 2014-15 i gynyddu'r cymorth wedi'i dargedu i leihau anghydraddoldeb mewn cyrhaeddiad addysgol.
- Ymestyn yr ymrwymiad i fuddsoddi £20 miliwn i gefnogi prentisiaethau yng Nghymru.
- Dyrannu £50 miliwn i sefydlu Cronfa Gofal Canolraddol newydd.
- Parhau i ddarparu Buddion Cyffredinol - presgripsiynau am ddim, brecwast ysgol a llefrith a ddim, nofio am ddim a thocynnau teithio rhatach.
- Buddsoddi £33.6 miliwn yn ystod y ddwy flynedd nesaf i gynnal yr ymrwymiad i roi 500 o swyddogion cymorth cymunedol ar y strydoedd.

¹⁰ Llywodraeth Cymru: Blaenoriaethau Cymru Hydref 2013.

10. **RHAGOLWG ARIANNOL TYMOR CANOLIG (MTFF) 2014/2015 I 2017/2018**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor yn ôl y gyfraith osod ei gyllideb cyn y flwyddyn ariannol er mwyn galluogi gosod Treth y Cyngor. Mae'r MTFF yn nodi sefyllfa debygol y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd i ddod ac yn cyflwyno cyllidebau dangosol a lefelau Treth y Cyngor ar gyfer y tymor canolig.

Cymeradwywyd ein Fframwaith Ariannol Tymor Canolig blaenorol gan y Cyngor ym mis Chwefror 2013 ar gyfer y cyfnod 2012 i 2017. Defnyddiwyd yr egwyddorion a amlinellwyd o fewn y Fframwaith i ddatblygu cyllidebau'r Cyngor ar gyfer 2013/14 a galluogi gwneud rhagamcanion ariannol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol.

Ond, nid oes unrhyw amgylchedd yn parhau i fod yn sefydlog - yn benodol, mae'r Setliad wedi gostwng yn ddramatig ar gyfer 2014/2015 a'r Setliadau tebygol y tu hwnt i 2014/2015. Mae'r hinsawdd economaidd gyfredol hefyd wedi cael effaith sylweddol ar y Cyngor. Mae Conwy wedi gweld llai o dderbynebau buddsoddi yn dilyn gostyngiad yng nghyfradd sylfaenol Banc Lloegr i'r isaf yn hanesyddol o 0.5%. Mae nifer o ffrydiau incwm hefyd wedi cael eu heffeithio, yn enwedig ffioedd cynllunio, incwm rheoli adeiladu a pridiannau tir, gwasanaethau hamdden ac incwm parcio ceir.

Mae'r adran hon o'r SATC yn nodi'r rhagolygon cyllidebol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2014/15 a 2017/18 yn unol â'r rhagamcanion diweddaraf, ac mae hefyd yn nodi'r lefel ofynnol o gyllid o Dreth y Cyngor. Felly, adolygwyd a diweddarwyd MTFF y Cyngor i adlewyrchu'r pwysau hyn, yn ogystal â datblygiadau newydd a newidiadau i bolisiâu ac arferion mewnol.

Cesglir data allweddol ar gyfer meysydd o gost ariannol sylweddol i'r Cyngor, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol ac yn cael ei ystyried wrth baratoi'r cynllun ariannol tymor canolig hwn. Bydd y data yn cael ei gyhoeddi yn flynyddol ac mae wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 dogfen Cymhellion Allweddol Conwy sy'n llywio adolygiad blynyddol Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Gellir dod o hyd i'r ddogfen Cymhellion Allweddol ar wefan y Cyngor.

Wrth ddatblygu'r MTFF defnyddiwyd y dylanwadau a'r tybiaethau allweddol canlynol:

TABL 12 Tybiaethau sylfaenol ar gyfer Adnoddau sydd ar gael

	2014-2015	2015-2016	2016-2017	2017-2018
Cynnydd Treth y Cyngor	5.00%	5.00%	5.00%	5.00%
Sylfaen Treth y Cyngor	49,516	49,640	49,764	49,889
Treth y Cyngor Band D	£964.89	£1,013.13	£1,063.79	£1,116.98
AEF	-4.1%	-1.87%	-1.5%	-1.5%
Tybiaethau Chwyddiant:				
Codiadau cyflog Athrawon a staff eraill	1.00%	1.00%	1.00%	1.00%
Cynnydd mewn prisiau cyfartalog cyffredinol	1.50%	1.50%	1.50%	1.50%
Cynnydd costau tanwydd ac ynni	5.00%	5.00%	5.00%	5.00%
Treth Tirlenwi	£8 y dunnell fetrig.	£8 y dunnell fetrig.	£8 y dunnell fetrig.	£8 y dunnell fetrig.

Mae'r tabl canlynol yn cynrychioli'r rhagamcanion adnoddau a lefel yr arbedion y bydd eu hangen yn y dyfodol:

TABL 13: Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig 2014/15 i 2017/18

	Amcangyfrif 2014/2015 £'000	Amcangyfrif 2015/2016 £'000	Amcangyfrif 2016/2017 £'000	Amcangyfrif 2017/2018 £'000
Gwariant Net Sylfaenol	204,690	209,904	205,256	205,441
Cyflog Gweithwyr - Athrawon ac Eraill	2,550	2,550	1,800	1,800
Chwyddiant ac Eithrio Tâl	1,331	1,065	1,065	1,065
Pwysau Anorfod				
Pwysau'r Galw ar Ofal Cymdeithasol	2,262	868	500	500
Pwysau Addysg	450	150	0	0
Costau Rheoli Trysorlys Ychwanegol	493	442	320	320
Treth Tirlenwi	210	210	210	210
Ffyrdd o Fyw Egnïol a Chreadigol	150	0	0	0
Newidiadau Pensiwn y Wladwriaeth	0	0	2,400	0
Cofrestru Pensiynau Awtomatig	0	0	0	850
Pwysau eraill	358	0	0	0
Trosglwyddo i'r AEF	5,413	0	0	0
Cyfrifoldebau Ychwanegol				
Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor	450	473	496	521
Gwariant a Ragwelir	218,357	215,662	212,047	210,707
Adnoddau				
AEF	157,855	154,743	152,420	150,131
Incwm Treth y Cyngor (Sylfaen)	45,503	47,778	50,167	52,675
Twf Sail Treth y Cyngor (Rhagamcan)	0	119	119	119
Gostyngiad Colledion wrth Gasglu	227	227	227	227
Adnoddau a Ragwelir	203,585	202,867	202,933	203,152
Diffygion Adnoddau	14,772	12,795	9,114	7,555
Cynnydd Dangosol Treth y Cyngor	2,275	2,389	2,508	2,634
Cyfanswm Arbedion Angenrheidiol	8,453	10,406	6,606	4,921
Adnoddau nad ydynt yn Rheolaidd	4,044	0	0	0
	14,772	12,795	9,114	7,555

11. RHAGLEN GYFALAF

Pwrpas y Rhaglen Gyfalaf yw gwneud y gorau o ddefnydd yr Awdurdod o adnoddau cyfalaf drwy ddyrannu i'r meysydd hynny a nodwyd sy'n cynrychioli blaenoriaethau strategol y Cyngor. Mae'r achosion busnes yn defnyddio'r data a'r wybodaeth a gynhwysir yn rhan gyntaf y strategaeth hon i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Mabwysiadwyd y Fframwaith Llywodraethu Cyfalaf yn ffurfiol i sefydlu'r mecanwaith a swyddogaethau a chyfrifoldebau allweddol y swyddogion ac aelodau wrth ddatblygu a rheoli'r Rhaglen Gyfalaf. Mae'r Cyngor yn adolygu ei gynlluniau gwariant cyfalaf bob blwyddyn ac yn diweddarau'r Rhaglen Gyfalaf. Un ystyriaeth allweddol wrth osod y rhaglen yw lefel arfaethedig yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael a fforddadwyedd, sy'n cael ei asesu trwy ddefnyddio dangosyddion darbodus. Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn darparu fframwaith clir ar gyfer ariannu a phenderfyniadau buddsoddi o ran asedau cyfalaf. Mae dolen i'r Rhaglen Gyfalaf fel a ganlyn:

<http://modgoveng.conwy.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=171&MId=3736&Ver=4>

Ysgolion yr 21ain Ganrif:

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio rhoi cyfle i'r holl awdurdodau lleol adolygu'r amgylchedd lle darperir addysg ar hyn o bryd a gweithio tuag at ddarparu'r ysgol gywir yn y lle cywir drwy Raglen Ysgolion 21ain Ganrif o fuddsoddiad cyfalaf yn y tymor hir ledled Cymru.

Mae'r Cyngor eisiau sicrhau bod amgylchedd dysgu o'r safon uchaf yn cael ei brofi gan ddisgyblion ar draws y Sir ac mae wedi ymrwymo i ddilyn polisi o adeiladu ac adnewyddu ysgolion i safonau amgylcheddol uchel.

Ym mis Hydref 2010 mabwysiadodd y Cabinet Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy (PMYC) yn ffurfiol (cofnod 529). Yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Cabinet hefyd i ymgynghori gyda Chymunedau yn fanwl ar y dewisiadau ar gyfer pob un o'r pedair ardal o fewn y Cynllun Gweithredu.

Ar 12 Rhagfyr 2011 cymeradwyodd Llywodraeth Cymru, mewn egwyddor, y don gyntaf o fuddsoddiad yng nghynlluniau Band A PMYC ac amcangyfrifwyd ar yr adeg honno y byddai'n costio £17.95m, gyda grant o 50% gan Lywodraeth Cymru.

Ar 3 Hydref, 2012 cymeradwyodd Llywodraeth Cymru y cyllid ar gyfer y prosiect cyntaf o fewn Band A y PMYC - y prosiect ar gyfer ysgol ardal yng Nghyffordd Llandudno.

Ar Gyfer Prosiectau dros £5 miliwn, mae cymeradwyaeth (a thaliadau grant) yn amodol ar gwblhau achosion busnes llawn i safonau Trysorlys EM. Mae cymeradwyo prosiectau dan £5 miliwn yn amodol ar gyflwyno achos Cyfiawnhau Busnes.

Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cynnwys manylion am y gwariant arfaethedig a'r camau dros y blynyddoedd ariannol o 2013/14 i 2016/17 o'r pedwar Prosiect Ysgolion 21ain Ganrif Band A (gweler Tabl 14 isod):

TABL 14: Rhaglen Gyfalaf Dreigl Pedair Blynedd 2013/14-2016/17 – Gwasanaethau Addysg

Rhaglen Gyfalaf yr 21ain Ganrif – Cynlluniau Band A	Rhaglen gynlluniedig 2013/14 £'000	Rhaglen gynlluniedig 2014/15 £'000	Rhaglen gynlluniedig 2015/16 £'000	Rhaglen gynlluniedig 2016/17 £'000
Ysgol Ardal Cyffordd Llandudno	289	4,905	4,531	774
Ardal Caerhun	-	265	2,782	1,098
Bae Colwyn, Ardal 1	-	93	1,211	348
Ardal Penmaenrhos	87	1,105	354	-
Cyfanswm	376	6,368	8,878	2,220

Mae gwariant a gynlluniwyd yn 2013/14 ar ffioedd dylunio a gwasanaethau ymchwiliol ar gyfer Ardal Penmaenrhos a phrynu tir ar gyfer Cyffordd Llandudno cyn dechrau'r gwaith yn 2014/15. Y cyfanswm a gynhwysir yn y cynnod hyd at 2016/17 yw £17.842 miliwn wedi'i ariannu'n gyfartal gan CBS Conwy a Llywodraeth Cymru. Bydd cyfraniad Conwy o £8.9 miliwn yn cael ei ariannu o Dderbynebaw Cyfalaf, Cronfeydd Cyfalaf, Benthycia Darbodus a dyraniad Conwy o Gyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Cymru.

Prosiect Glan y Môr Bae Colwyn

Mae Prosiect Glan y Môr Bae Colwyn yn ganlyniad i uno dwy strategaeth ar wahân ar hyd glan y môr Bae Colwyn ac mae'n ceisio darparu'r canlynol:

- Darparu amddiffynfeydd arfordirol wedi'u huwchraddio a'u gwella ar hyd y glan y môr cyfan i ddiogelu rhag y risg o lifogydd ac erydu arfordirol
- Gwelliannau amgylcheddol i dir y cyhoedd ar hyd y promenâd i gymell dyheadau adfywio ar gyfer y dref a darparu glan y môr amwynder deniadol i ddenu mwy o ymwelwyr i'r ardal

Gwnaethpwyd £7m o waith peirianyddol ym Mae Colwyn yn ystod 2011/12 yn ddefnyddio cyllid grant trwy Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Mae tua £3m o gyllid adfywio wedi'i fuddsoddi yn ystod 2012/13, wrth lunio canolfan chwaraeon dŵr - Porth Eirias, ar ben y gwaith peirianyddol a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r gwaith o adeiladu grwynau carreg wedi creu strwythur rheoli angenrheidiol i sicrhau bod traeth a aillenwyd yn parhau i fod yn gynaliadwy yn dilyn mewnfario tywod.

Er mwyn cynyddu safon yr amddiffynfeydd arfordirol ar hyd y blaen, ail-lenwyd y traeth drwy fewnfario tywod yn unol â'r proffil dylunio a nodwyd gan yr astudiaeth modelu arfordirol. Cwblhawyd cam cyntaf y gwaith ail-lenwi traeth yn 2012/13, a bydd ail gam y gwaith yn cael ei wneud yn gynnar yn 2014.

Bydd gwaith modelu pellach yn llywio'r strategaeth amddiffyn yr arfordir mwyaf addas ar gyfer camau yn y dyfodol, a fydd yn cael eu cynorthwyo drwy grantiau gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio pecynnau o arian grant fel y bydd cyllidebau cenedlaethol yn caniatau. Rhagwelir buddsoddiad cyfalaf o dros £6.6m dros flynyddoedd 2014/15 i 2018/19 ar y gwaith amddiffyn yr arfordir, ynghyd â £1.7m ychwanegol ar welliannau amgylcheddol yn 2014/15.

Rhaglen Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP)

Mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn ei gais Cam 2 ar gyfer buddsoddi adfywio wedi'i dargedu ac mae'r Cyngor wedi cael gwahoddiad i gynnal trafodaethau manwl gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar raglen derfynol. Mae'r Gweinidog dros Dai ac Adfywio wedi penderfynu y dylai Conwy gael dyraniad cenedlaethol ar gyfer ei Raglen VVP ar gyfer ardal Bae Colwyn o hyd at £12.022m, yn amodol ar drafodaeth manylach gyda Llywodraeth Cymru.

Cynnal Isadeiledd

Mae'n amlwg bod angen i'r Cyngor gynnal ei isadeiledd, gan gynnwys priffyrdd ac asedau amddiffyn yr arfordir, er mwyn osgoi baich refeniw. Mae'r rhaglen gyfalaf yn gefnogol iawn o gynnal a chadw isadeiledd ac mae angen i hyn fod yn flaenllaw wrth gynllunio i'r dyfodol.

12. BALANSAU A CHRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'n bwysig bod Conwy yn cynnal lefel briodol o gronfeydd wrth gefn a balansau. Mae'r gofyniad i gynnal yr adnoddau hyn yn cael ei gydnabod mewn statud. Er mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol a'i Brif Swyddog Cyllid yw cynnal sefyllfa ariannol gadarn, mae gan archwilyr allanol gyfrifoldeb i adolygu'r trefniadau ar waith i sicrhau bod sefyllfa ariannol yn gadarn.

Mae tri math o gronfeydd wrth gefn sy'n ymddangos ym Mantolen y Cyngor ac maent fel a ganlyn:

1. Balans Cronfa'r Cyngor

Mae Balansau Cyffredinol y Cyngor yn swm wrth gefn sydd ar gael i dalu am amgylchiadau annisgwyl neu eithriadol. Mae archwilyr allanol yn aml yn cyfeirio at lefel y balansau cyffredinol wrth ystyried iechyd ariannol y sefydliad.

Amcangyfrifir y bydd Balans Cronfa'r Cyngor yn gostwng i lefel o £2.567m o'r lefel flaenorol o £2.979m o ganlyniad i ddefnyddio £412k yn ystod 2013/14 i gefnogi difrod llifogydd a difrod yn ymwneud â'r tywydd. Yn absenoldeb lleiafswm statudol, cynghorir bod y lefel hon o balansau cyffredinol yn briodol ar hyn o bryd i Gonwy ei chynnal. Byddai balansau cyffredinol ar lefel o tua 1.8% o'n cyllideb refeniw net ac eithrio ysgolion - yr isaf yng Nghymru.

2. Balansau Ysgolion

Mae'n rhaid i'r balansau hyn, cyfanswm o £3.775m ar 31 Mawrth, 2013, gael eu neilltuo ar gyfer eu defnyddio gan ysgolion sydd â'r hawl i wario eu balansau yn ôl doethineb y Llywodraethwyr Ysgol. Mae balansau ysgolion Conwy ymhlith yr uchaf yng Nghymru ac mae'r gwasanaeth addysg yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod balansau yn cael eu rheoli a'u cynnal yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

3. Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi

Mae'r Cyngor yn cynnal cronfeydd gwasanaeth wrth gefn at amryw o ddibenion. Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2013 oedd £20.022m. Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu dosbarthu fel rhai sydd wedi'u clustnodi yn gyfreithiol, yn hanfodol i fusnes, wedi ymrwymo drwy gontract, eu defnyddio ar gyfer cyllideb 2013/2014 neu eu clustnodi ar gyfer mentrau yng nghyllideb 2013/2014 a 2014/2015.

13. **CASGLIAD**

Bydd y blynyddoedd nesaf yn gweld her ddigynsail i'r Cyngor o ran rheoli ei chyllid ac adnoddau. Mae'n amlwg o'r setliad terfynol ein bod yn wynebu pwysau cyllidebol real iawn, ac mae SATC y Cyngor yn nodi ein gofynion gwariant ar gyfer 2014/15 a thu hwnt i 2017/18. Mae'n amlwg o'r rhagamcanion mai cynnal gwasanaethau blaenoriaeth fydd y cymhelliant allweddol ar gyfer y Cyngor dros y blynyddoedd nesaf.

Bydd yr adroddiad gan y Comisiwn Williams yn dechrau llunio'r darlun sy'n dod i'r amlwg ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a llywodraeth leol yng Nghymru dros y misoedd nesaf. Mae'n amlwg yn amhosibl i gynnwys unrhyw beth cadarn mewn perthynas â'r adroddiad yn y SATC. Ein hagwedd yn y tymor canolig fydd sicrhau bod y 'Conwy gyfredol' yn dal i fod yn gyfan i raddau helaeth yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd eithafol.

Atodiad 1: Cynhyrchu Cyllideb Refeniw 2014/15

18 Mawrth 2013	Fforwm Cyllideb Ysgolion Conwy
26 Mehefin 2013	Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr - Llywodraeth y DU
2 Gorff 2013	Fforwm Cyllideb Ysgolion Conwy
9 Gorffennaf 2013	Cabinet - cymeradwyo'r Fframwaith Cynllunio Busnes gan gynnwys amserlen y gyllideb.
31 Gorff 2013	Adroddiad Cyfeiriad Strategol i'r Cyngor - Cynllunio ar gyfer Gwasanaethau o fewn Cyllideb Cynaliadwy a Chytbwys - 2014/15 a Thu Hwnt
Gorffennaf 2013 – Rhagfyr 2013	Cyllideb Aelodau a Gweithgorau Effeithlonrwydd yn craffu ar agweddau ar y gyllideb.
Medi 2013	Llywodraeth Cymru - Cyhoeddi cyllideb cyffredinol LIC (nid yw'n cynnwys gwybodaeth benodol Llywodraeth Leol).
Medi/Hydref 2013	Penaethiaid Gwasanaeth yn paratoi a chyflwyno Achosion Busnes Refeniw
16 Hydref 2013	Llywodraeth Cymru - Cyhoeddi Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol.
21 Tachwedd 2013	Uwch Dîm Rheoli yn adolygu'r Achosion Busnes
26 Tachwedd 2013	Adroddiad Cyfeiriad Strategol - Setliad Dros Dro 2014/15 a Chynllunio Ariannol Strategol
Tachwedd / Rhagfyr	Ymgynghori â'r cyhoedd, undebau a sefydliadau busnes lleol
11 Rhagfyr 2013	Llywodraeth Cymru - Setliadau Refeniw a Chyfalaf Terfynol wedi'u cyhoeddi.
17 Rhagfyr 2013	Fforwm Cyllideb Ysgolion Conwy
Ionawr 2014	Llywodraeth Cymru – Trafodaeth Setliadau.
14 Ionawr, 2014	Adroddiad Cyfeiriad Strategol - Setliad Terfynol 2014/15 ac Achosion Busnes Refeniw
11 Chwefror 2014	Adroddiad y Cabinet - Cyllideb Refeniw a Threth y Cyngor 2014/15 Y Cabinet yn argymhell y Gyllideb i'w gymeradwyo gan y Cyngor
Ionawr/Chwefror 2014	Ymgorffori Ardoll Tân, yr Heddlu a Phraeseptau Cynghorau Cymuned.
20 Chwefror 2014	Cyngor – Gosod y Gyllideb a Lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2014/15.
Mawrth 2014	Anfon gorchmynion Treth y Cyngor.